HYSBYSIAD PREIFATRWYDD:

LLWYODRAETH GYMRU GRANTIAU BUSNES GOFAL PLANT

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ymdrin â sut y bydd Cyngor Sir Sir Benfro (fel Rheolwr Data) yn casglu, defnyddio a diogelu data personol at ddibenion asesu Grantiau Busnes Gofal Plant Llywodraeth Cymru.

Pam fod arnom angen gwybodaeth amdanoch (dibenion prosesu)

Rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol fel y gallwn groesgyfeirio a dilysu'ch cais am Grant Busnes Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymorth Busnes Feirws Covid-19.

Defnyddir y wybodaeth hon hefyd i groesgyfeirio gyda manylion eisoes ar ein cofnodion ar eich cyfer yn y Gwasanaethau Refeniw, ond efallai y bydd angen croeswirio hyn gyda Thŷ'r Cwmnïau lle bo hynny'n berthnasol.

Byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth a ddarperir gennych i ganfod ac atal twyll ar gyfer y cynllun hwn. I wneud hyn byddwn yn rhannu gwybodaeth yn allanol â Cifas a fydd yn cynnal gwiriadau dilysu ar ein cyfer cyn i'r cais gael ei gymeradwyo. Gweler y ddolen isod i Cifas sy'n esbonio sut y bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer croeswirio a dilysu cymwysiadau;

https://www.cifas.org.uk/fpn/covid19

Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei phrosesu'n unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018.

Byddwn yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio / gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, fe all gwybodaeth gael ei rhannu gydag adrannau mewnol eraill yng Nghyngor Sir Penfro ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Wnawn ni ddim gwneud unrhyw ddatgeliadau i eraill at ddibenion marchnata.

Bydd eich data'n ddiogel a chydgyfrinachol bob amser a byddwn yn casglu'n unig y wybodaeth bersonol sy'n ofynnol er mwyn i ni allu rhoi'r Grant Busnes Gofal Plant i chi.

Pa ddata personol sy'n cael eu casglu?

Er mwyn prosesu'ch Grant Busnes Llywodraeth Cymru byddwn yn casglu'r data canlynol:

- Enw perchennog y busnes
- Cyfeiriad perchennog y busnes
- Cyfeiriad cyswllt perchennog y busnes
- E-bost / rhif ffôn perchennog y busnes
- Manylion cyfrif banc y busnes
- Manylion cyfrif banc personol (os nad oes cyfrif busnes yn cael ei ddal)
- Manylion gweithwyr

Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Mae Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) yn gofyn ateb amodau penodol er mwyn sicrhau bod prosesu eich data personol yn gyfreithlon. Mae'r amodau perthnasol hyn isod:

- Erthygl 6 (1)(e): mae angen prosesu er mwyn gwneud gwaith er lles y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolydd.

Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu gwybodaeth amdanoch?

Lle bynnag y bo modd, byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol gyfyngedig i asesu'ch cais a'ch cymhwysedd i gael Grant Busnes Gofal Plant, fodd bynnag, efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol ag adrannau mewnol, sefydliadau eraill a thrydydd partïon, bydd hyn yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- Busnes Cymru
- Cifas
- Tŷ'r Cwmnïau (os oes angen)

Am ba hyd fydd y Cyngor yn cadw gwybodaeth bersonol amdanaf?

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a ddarperir i ni am gyfnod y rhaglen grantiau a bydd eich gwybodaeth yn cael ei gwaredu'n ddiogel unwaith na fydd ei hangen mwyach.

Eich Hawliau

Dan gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau gan gynnwys y canlynol:

- Eich hawl i gywiro – mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth a ystyriwch yn anghywir. Mae gennych hefyd hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth a ystyriwch yn anghyflawn;
- Dan rai amgylchiadau (e.e. lle caiff cywirdeb ei herio), gofyn am gael cyfyngu ar brosesu eich data personol;
- Dan rai amgylchiadau mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol;
- Mae gennych hawl mynediad – mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. I wneud cais, cysylltwch â:

  Mynediad at Gofnodion
  Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP
  E-bost: accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 775798

Cwynion ac Ymholiadau

Mae Cyngor Sir Penfro yn ceisio cyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn am hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i dynnu ein sylw os ydyn nhw'n credu bod ein casglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cyflawn o bob agwedd ar gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol gennym. Fodd bynnag, rydym yn barod i roi unrhyw wybodaeth neu esboniad ychwanegol sydd eu hangen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn i'r cyfeiriad isod:

Jo Hendy, Swyddog Diogelu Data
Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP
E-bost: dataprotection@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 764551

Os ydych eisiau cwyno ynghylch sut ydym wedi prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwylio cyfraith diogelu data:
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, SK9 5AF
Gwefan: https://ico.org.uk/ Rhif Ffôn: 0303 123 1113

Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Byddwn yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd.